

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

1 Mai 2020

Cyfarfod Rhithwir

10.00 – 1.00

SESIWN AGORED: 10.30 – 1.00

Presennol:

Meri Huws (Llywydd dros-dro a Chadeirydd)
Eleri Twynog Humphries
Gwilym Dyfri Jones
Steve Williams
Mike Cavanagh
Quentin Howard
Elin Royles

Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Liz Siberry
Yr Arglwydd Aberdâr
Carl Williams
Gwenllian Lansdown Davies
Anwen Jones

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Adnoddau Corfforaethol)
Owain Roberts	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus)

Staff eraill:

Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cofnodydd)
Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol

Sylwedyddion:

Steffan Roberts	CyMAAL
Catrin Hughes	CyMAAL
Nia Dafydd	Cyngor Partneriaeth
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth

1.1 Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Llywydd

Croesawodd y Llywydd bawb i gyfarfod rhithwir cyntaf Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell, gan estyn croeso arbennig i Gwenllian Lansdown Davies, Anwen Jones, ac Elin Royles i'w cyfarfod ffurfiol cyntaf. Roedd hwn yn gyfarfod hanesyddol nid yn unig fel y cyfarfod rhithwir cyntaf, ond o bosib, y

cyfarfod rhithwir cyntaf i'w gynnal yn ddwyieithog. Diolchwyd yn fawr iawn i Osian Rhys ac Eiri Siôn am hwyluso'r cyfieithu ar ran y Llyfrgell.

Estynnwyd croeso arbennig hefyd i Steffan Roberts a oedd newydd ei benodi'n Ddirprwy Gyfarwyddwr dros-dro Adran Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru, ac i Catrin Hughes yn ei rôl newydd fel Pennaeth Noddi'r Adran.

Llongyfarchwyd Eleri Twynog Humphries ar ddod yn rhiant yn ddiweddar, a dymunwyd yn dda i'r teulu cyfan.

Daeth tymor Rhodri Glyn Thomas fel Llywydd i ben ar 31 Mawrth, a diolchodd Meri Huws iddo am ei gyfraniad i'r Llyfrgell yn ystod ei gyfnod fel Llywydd. Bydd cyfle i ddathlu cyfraniad Rhodri mewn digwyddiad at y dyfodol. Nododd Meri Huws ei bod, ar gais Llywodraeth Cymru, wedi cydsynio i weithredu fel Llywydd am gyfnod o 12 mis, a diolchodd yn fawr i Lywodraeth Cymru am y cyfle. Nododd y Llywydd na fyddai'n hawlio lwfans yn ystod y cyfnod hwn.

1.2 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Hugh Thomas.

1.3 Datgan Buddiannau

Datganodd Meri Huws ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, aelod o Fwrdd JTCT ac o Fwrdd Shelter Cymru.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Steve Williams ei fod yn aelod o staff Prifysgol Abertawe, yn Gadeirydd WHELP ac yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd CILIP.

Datganodd Mike Cavanagh ei fod yn Bennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Hamdden, Twristiaeth a Chofrestru Cyngor Sir Penfro, a'i fod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Llyfrgell ar brosiect Oriel Glan-yr-Afon, Hwlfordd.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd 21 Chwefror 2020 a thrafod materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 21 Chwefror fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

Materion yn codi o'r cofnodion

Cynllun Pensiwn

2.1.1. Symud o gynllun cyflog terfynol i gynllun CARE

Nododd David Michael fod y mater hwn erbyn hyn wedi ei drosglwyddo'n ôl i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol er mwyn ei ystyried ymhellach.

2.1.2 Penodi Ymddiriedolwyr i fwrdd y Cynllun Pensiwn

Yn dilyn cais i benodi Ymddiriedolwyr i Fwrdd y Cynllun Pensiwn, cymeradwyodd y Bwrdd benodi Quentin Howard a Carl Williams.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Adolygiad Teilwredig

Nodwyd nad oedd y drafft terfynol o'r Adolygiad wedi'i dderbyn eto ac y byddai'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd yn gofyn eto i'r Uned Penodiadau Cyhoeddus am gopi er mwyn ei ddsbarthu ymhlith aelodau'r Bwrdd.

Cytunwyd i gynnal cyfarfod arbennig o'r Bwrdd ar 4 Mehefin er mwyn trafod cynnwys yr Adolygiad a pharatoi ymateb y Bwrdd i'r argymhellion.

Gŵyl y Gelli

Yn anffodus, bu'n rhaid canslo Gŵyl y Gelli eleni, ond gobeithir cynnal digwyddiad yno yn 2021. Er mwyn dangos ewyllys da a chefnogaeth i'r trefnwyr y mae'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd wedi cynnig y defnydd o adeilad y Llyfrgell i'r trefnwyr petaent am gynnal digwyddiadau yn ardal Aberystwyth yn ystod y flwyddyn. Cytunwyd bod angen meithrin perthynas â'r Wyl.

Gofynnodd y Llywydd i'r Ymddiriedolwyr gysylltu gyda Chlerc y Bwrdd os oedd ganddynt unrhyw syniadau am bartneriaethau gyda sefydliadau eraill y medrai'r Llyfrgell fanteisio arnynt.

[GADAWODD MIKE CAVANAGH Y CYFARFOD AM 10.30, GAN DDYCHWELYD AM 11.00]

Cyllid Cyfalaf

Er bod Llywodraeth Cymru wedi adrodd rhai misoedd yn ôl am y posibilrwydd cryf y byddai yna gall arian cyfalaf ar gael i'r sector diwylliant yn 2020/2021 ar gyfer cyllido prosiectau penodol, gallai'r sefyllfa fod wedi newid erbyn hyn yn sgîl Covid-19. Bydd y Llyfrgell yn trafod hyn yn fuan gyda'r Llywodraeth oherwydd bod gennym gynlluniau deniadol wedi'u paratoi'n barod

i'w cyllido, pe bai arian yn dod ar gael.

Nodwyd y byddai'r gwaith o ddatblygu'r Prif Gyntedd, a gyllidir gan arian preifat y Llyfrgell, yn mynd rhagddo unwaith y byddwn yn medru caniatáu i'r adeiladwyr ddychwelyd i'r Llyfrgell.

1.5 Pwyntiau gweithredu o gyfarfod 28 Tachwedd

2.5 Cydnabyddiaeth y Llywydd

Yn unol â phenderfyniad y Bwrdd, fe allai'r Llywydd o hyn allan hawlio diwrnod o lwfans yr wythnos. Serch hynny, penderfyniad personol y Llywydd presennol yw na fyddai'n gwneud hynny'n tra'n gweithredu fel Llywydd dros-dro.

Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth a phenderfyniad

2.1 Gweledigaeth Strategol 2021 – 2026

Bydd Cynllun Strategol 2021 - 2026 yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021. Eglurwyd mai Gweledigaeth Strategol lefel uchel a gyflwynwyd mewn ffurf drafft i'r aelodau a ddeilliai o'r drafodaeth a gaed gyda'r Bwrdd yn Rhagfyr 2019, sylwadau'r aelodau i ddrafft blaenorol, a thrafodaethau'r Tîm Gweithredol.

Cafwyd trafodaeth fanwl ar y Weledigaeth, ac fe'i cymeradwywyd gan yr aelodau. Bydd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd yn diwygio'r drafft yn ôl yr awgrymiadau a'r sylwadau gwerthfawr a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.

Eglurodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd mai'r cam nesaf fyddai dylunio'r Weledigaeth yn broffesiynol, ei rhyddhau i'r Undebau a'r staff ac yna i'r cyhoedd. Bydd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn cychwyn ddechrau Mehefin ac yn para chwe wythnos. Felly, gobeithir cyflwyno drafft o'r Cynllun Strategol, wedi'i sylfaenu ar y Weledigaeth a'r adborth o'r broses ymgynghori, i aelodau'r Bwrdd ym mis Medi. Bydd cynllun gweithredu manwl yn cael ei baratoi ar ôl hynny.

Nodwyd bod y Weledigaeth wedi'i drafftio'n weddol gynnar yn y flwyddyn a hynny oherwydd yr heriau ariannol sylweddol mae'r Llyfrgell yn gorfod ei wynebu eleni. Rhaid chwilio am arbedion yn y gwariant refeniw. Rhaid wrth weledigaeth glir a chreu ohonom strwythur corfforaethol priodol i wireddu'r Strategaeth, a thrwy hynny gobeithio, ganfod yr arbedion ariannol angenrheidiol.

Nodwyd ymhellach y byddai canlyniadau'r Adolygiad Teilwredig a'i argymhellion, o bosib, yn dylanwadu i ryw raddau ar gynnwys y Cynllun Strategol newydd pan eir ati i'w ddrafftio ar gyfer cyfarfod mis Medi'r Bwrdd.

2.2 Effaith Covid-19 ar weithgareddau a digwyddiadau'r Llyfrgell

Cyflwynwyd papur gan Owain Roberts yn rhoi crynodeb o effaith Covid-19 ar weithgareddau'r Llyfrgell a chroesawyd hwn yn fawr gan yr Ymddiriedolwyr. Roedd yn gosod allan y gweithgareddau a oedd yn medru parhau, rhai a oedd yn medru parhau'n rhannol, neu rai a oedd wedi'u gohirio'n llwyr am y tro.

Mae'r argyfwng presennol yn cynnig cyfleon yn ogystal â heriau e.e. mae'n rhoi mwy o gyfle i nifer o staff curadurol i ddatblygu cynnwys at bwrpas hyrwyddo a marchanata'r Llyfrgell.

Mae cynnydd o tua 10%-15% i'w weld yn y traffig i wefannau 'r Llyfrgell ers dechrau Ebrill o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, ac i'w weld o ganlyniad i gynnydd mewn traffig organig (trwy beiriannau chwilio) a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae trafodaethau wedi digwydd rhwng yr Amgueddfa Llyfrgell a'r undebau ynglŷn â gosod staff ar Furlough, a diolchodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd i David Michael ac Annwen Isaac am eu gwaith ynghylch hyn. Mae'r staff hynny sy'n medru gweithio o adref wedi derbyn canllawiau a chyfarpar i'w galluogi i gyflawni'r gwaith, ond mae angen buddsoddi mewn mwy o gyfarpar i alluogi mwy o staff i fedru gweithio o adref.

Nodwyd fod 4 o staff wedi dangos symptomau Covid-19, ond eu bod i gyd wedi gwella'n llwyr erbyn hyn.

Cafwyd cadarnhad bod y Tîm Gweithredol yn cyfarfod yn wythnosol i drafod y sefyllfa yn sgil y pandemig, a bod rheolwyr yn cyfarfod â'r Undebau'n rheolaidd.

Nododd y Llywydd ei bod hithau mewn cysylltiad rheolaidd â'r Tîm Gweithredol yn wythnosol, a chanmolodd y cyfathrebu gwych sy'n digwydd yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.

Diolchodd yr Ymddiriedolwyr i'r Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd am ei negeseuon wythnosol, sy'n dangos sensitifrwydd a chonsyrn tuag at y staff; canmolwyd hefyd y rôl mae'r Llyfrgell yn ei chwarae yn cefnogi Bwrdd Iechyd Hywel Dda'n lleol.

Gofynnwyd i'r Tîm Gweithredol sicrhau fod y ddogfen yn cael ei chadw'n gyfredol a'i chyflwyno i'r cyfarfod interim ar 4 Mehefin a'r cyfarfod arferol ar 24 Gorffennaf.

2.3 Gwaith ar yr adeilad – diweddariad yn sgil Covid-19

Daeth y gwaith ar yr adeilad i ben ar 26 Mawrth yn sgîl cau'r adeilad oherwydd Covid-19. Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda RL Davies ynglŷn ag ail gychwyn gweithio ar yr adeilad, ac mae'r Llyfrgell yn aros iddynt ddarparu asesiadau risg cynhwysfawr fydd yn diogelu staff y Llyfrgell a'r adeiladwyr, ac yn dangos bod modd cadw at wahanu cymdeithasol. O dderbyn sicrwydd gan RL Davies ei bod hi'n ymarferol i gydymffurfio â'r gyfraith a chanllawiau Llywodraeth Cymru, fe allai'r Llyfrgell ganiatáu iddynt ddychwelyd i'r Llyfrgell i gyflawni gwaith y tu allan i'r adeilad.

Roedd y gwaith mewnol o fewn pythefnos i'w gwblhau pan fu'n rhaid cau'r adeilad, ond ni fu modd parhau oherwydd y risg i staff diogeled y Llyfrgell.

2.4 Cadwrfa Ddigidol Ddibynadwy

Datganodd Steve Williams fuddiant yn y drafodaeth ddilynol ar y Gadwrfa Ddigidol Ddibynadwy.

Nodwyd bod y Llyfrgell, mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth a'r Comisiwn Brenhinol, wedi cyflwyno gwybodaeth bellach i UKRI ynghylch y cysyniad sy'n cael ei ddatblygu rhwng y tri phartner ar hyn o bryd. Nid cais mohono, ac felly roedd hi'n rhy gynnar i drafod y mater hwn mewn manylder mawr. Os bydd UKRI a'i bartneriaid yn barnu y gellid darparu arian i ddatblygu'r cysyniad, yna byddai rhaid i'r Llyfrgell a'i phartneriaid gystadlu am unrhyw arian a fyddai ar gael, a dyna pryd y mae'r Bwrdd yn gorfod dod i benderfyniad ynghylch priodoldeb ymgeisio ai peidio.

Cytunwyd y byddai Quentin Howard yn paratoi papur eglurhaol ar y cysyniad i'r Bwrdd ymhen y rhawg.

2.5 Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth 2019 -2020

Adroddwyd bod y Llyfrgell nid yn unig wedi llwyddo i gyflawni targedau'r prif ddangosyddion cyflawni, ond hefyd wedi rhagori ar nifer ohonynt. Priodolwyd y ddau fethiant i bandemig Covid-19 gan nad oedd modd cynnal digwyddiadau yn yr adeilad.

2.6 Penodiadau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r Uned Penodiadau Cyhoeddus wedi hysbysu'r Llyfrgell ei bod yn rhewi pob ymgyrch apwyntiad cyhoeddus tan 31 Rhagfyr 2020. Maent wedi gofyn felly i'r Llyfrgell ystyried ymestyn cyfnodau'r Ymddiriedolwr hynny sy'n benodiadau'r Llyfrgell, sef Hugh Thomas a Gwilym Dyfri Jones, sydd a'u cyfnodau'n dirwyn i ben cyn 31 Mawrth 2021. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gweithredu yn yr un modd ar gyfer penodiadau'r Llywodraeth, Liz Siberry, Steve Williams a'r Arglwydd Aberdâr. Cafwyd sgysiau ymlaen llaw gyda phob un o'r Ymddiriedolwyr y byddai hyn yn ei effeithio, ac roedd pob un yn fodlon aros ymlaen tan ddiwedd Mawrth 2021. Felly, cytunwyd i ymestyn cyfnodau'r Ymddiriedolwyr. Diolchwyd i'r Ymddiriedolwyr hynny am eu parodrwydd i aros ymlaen gan y bydd hyn yn cynnig sefydlogrwydd i'r Bwrdd ar gyfnod ansicr a heriol.

Adran 3 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd ei adroddiad, ond nid oedd unrhyw gwestiynau na sylwadau gan yr Ymddiriedolwyr ynglŷn â'r adroddiad.

Manteisiodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ar y cyfle i ddiolch i staff am eu gwaith yn y cyfnod anodd yma, ac am y cyfathrebu cyson sy'n digwydd gyda Llywodraeth Cymru, y Bwrdd a'r Llywydd.

Gofynnwyd i'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd gyfleu dymuniadau da a diolchiadau'r Bwrdd i'r staff am eu gwaith.

Adran 4 Cydymffurfiaeth a Risg

4.1 Cofrestr Risg

Amlygwyd y risgiau canlynol gan David Michael;

R1 – Insufficient WG grant in relation to operational costs, which are mainly staff costs, results in budget cuts which affect existing services and development of new services.

R4 – Disruptive event prevents the Library from continuing with its work. A business continuity event, such as terrorism, zika virus, avian flu, coronavirus, fire flood, equipment malfunction etc.

Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr i'r Tîm Gweithredol gynnwys mwy o wybodaeth am Covid-19 gan fod hyn bellach yn pandemig.

Adran 5 Materion Ariannol

5.1 Cyfrifon Rheoli hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020

Cyflwynwyd y rhain i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 21 Ebrill, ac fe gymeradwywyd eu cyflwyno i'r Bwrdd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â buddsoddiadau'r Llyfrgell, nododd David Michael fod gan y Llyfrgell Bolisi Buddsoddi ar gyfer arian preifat y Llyfrgell. Ar hyn o bryd, mae tua £12m o arian wrth gefn, ond mae tua £10m wedi ei glustnodi ar gyfer prosiectau penodol.

Mae'r cyfrifon statudol yn cael eu paratoi ar hyn o bryd a diolchwyd i Emyr Phillips a staff yr Adran Gyllid am eu paratoi.

GADAWODD ELERI TWYNOG HUMPHRIES Y CYFARFOD AM 11.30

5.2 Adroddiad Codi Arian

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd oedd a dynnodd sylw'r Ymddiriedolwyr at y ffaith bod ymgyrch gymynroddion ar y gweill, ac y byddai wedi'i gwblhau cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

Gofynnwyd a fyddai modd cael rhestr o ba ffynonellau sydd ar gael i'r Llyfrgell wneud ceisiadau iddynt, a pha rai mae'r Llyfrgell wedi gwneud ceisiadau iddynt yn y gorffennol. Cytunodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd i ddarparu adroddiad cefndirol o ran pa grantiau a dderbyniwyd yn y gorffennol a pha geisiadau cyfredol sydd ar y gweill. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys y prosiectau sydd wedi eu hariannu gan arian preifat y Llyfrgell. Cytunodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd i hefyd ddarparu cyflwyniad byr ar godi arian yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ar 24 Gorffennaf.

Cytunwyd i gynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Codi Arian er mwyn trafod materion strategol yn ymwneud â chodi arian.

Adran 6 Adroddiadau o Bwyllgorau

6.1 Cofnodion Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 21.04.20 – adroddiad llafar

Cyflwynwyd y cofnodion ar lafar gan y Cadeirydd, Lee Yale-Helms, ac amlygwyd y materion canlynol;

Cynllun Pensiwn - mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r Tîm Gweithredol baratoi papur opsiynau ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 12 Mehefin, sy'n gosod allan yr holl opsiynau sydd ar gael i'r Llyfrgell o ran symud o'r cynllun presennol i gynllun pensiwn arall.

Amseroedd Heriol – ystyriwyd y ddogfen gan y Pwyllgor, a thrafodwyd y criteria ar gyfer gwerthuso'r opsiynau a nodwyd yn y ddogfen; mae'r Trysorydd a'r Llywydd yn mynd i weithio gyda'r Tîm Gweithredol i ddatblygu'r criteria ymhellach.

Bydd y Llyfrgell yn caffael gwasanaeth ymgynghorol Nia Bennett o Gwmni Effectus HR i gynorthwyo'r Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd gyda'r gwaith o ailstrwythuro corfforaethol a chynnig cymorth adnoddau dynol.

Archif Ddarlledu Genedlaethol

Nododd a chymeradwyodd y Llywydd benderfyniad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd i chwilio am gyfleoedd i gyflawni'r gwaith yn rhatach a lleihau cyfraniad ariannol y Bwrdd i'r prosiect. Yn wyneb sefyllfa ariannol y Llyfrgell, ac yn enwedig yng nghyd-destun Covid-19 lle mae'n bosib y gwelwn ni'r Llywodraeth yn adolygu ein cyllid ar gyfer eleni, y mae'n hanfodol adolygu ein hymrwymadau ariannol ac ymchwilio i gyfleodd o gyflawni prosiect fel hwn mewn ffordd

ratach, amgen, heb i hynny gael effaith negyddol ar brif nodau ac amcanion y prosiect. Roedd yr Aelodau'n cytuno mai doeth fyddai trafod opsiynau gyda Chronfa'r Loteri.

Adran 7 Unrhyw fater arall

7.1 Cylch Busnes 2020

Bydd y Cylch Busnes yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi digwydd yn sgil Covid-19 a'i ddsbarthu yn electronig i'r Ymddiriedolwyr.

8. Unrhyw fater arall

Diolchodd y Llywydd i Osian ac Eiri o gwmni Nico am ddarparu'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, a fu'n hynod lwyddiannus.

Bydd cyfarfod interim yn cael ei gynnal trwy gyfrwng Zoom yn gynnar ym mis Mehefin i drafod yr Adolygiad Teilwredig , ac yna'r cyfarfod ffurfiol nesaf ar 24 Gorffennaf, eto ar Zoom.

**** DIWEDD Y CYFARFOD ****